Cofnodion **CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 19 Mehefin 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**21. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Gwnaeth Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan, mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. M. Evans, Miss S. Fleming, B. Mellor a Ms R. S. Roberts.

**22. CYFLWYNIAD I SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU Y RHYL a CHADETIAID Y MÔR Y RHYL**

Croesawodd y Maer gynrychiolwyr o'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau a Chadetiaid y Môr y Rhyl i'r cyfarod, ac estynodd wahoddiad i'r cyn Faer, y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine, gyflwyno tystysgrifau iddynt yn cadarnhau cyfraniad o £558.11 i'r ddau sefydliad, sef arian a godwyd gan y Cynghorydd McAlpine yn ystod ei blwyddyn fel Maer yn 2023/24.

**23. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**24. CYNGOR SIR DDINBYCH – YMGYNGHORI YNGHYLCH TOILEDAU CYHOEDDUS**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024, atgoffodd y Clerc fod swyddogion wedi'u gwahodd i'r cyfarfod heno i ateb cwestiynau ac yna y byddai'r is-bwyllgor a sefydlwyd yn ddiweddar yn ystyried cais Cyngor Sir Ddinbych ac yn gwneud argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ym mis Gorffennaf er mwyn ymateb cyn y dyddiad cau, sef 5 Gorffennaf.

Yn anffodus roedd y swyddogion wedi cyflwyno eu hymddiheuriadau yn gynharach yn ystod y diwrnod oherwydd materion gweithredol pwysig, felly maent wedi cytuno ar estyniad i'r dyddiad cau os bydd angen.

Roedd y swyddogion hefyd wedi cytuno i ystyried y cwestiynau a godwyd gan yr aeloau yn y cyfarfod heno, ac ymateb iddynt un ai drwy neges e-bost neu drwy ddod i gyfarfod is-bwyllgor, gyda chymerawyaeth yr aelodau.

Ar ôl trafodaeth ***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r cwestiynau a godwyd i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych cyn cyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor newydd a sefydlwyd i dderbyn eu hatebion un ai drwy neges ebost neu wyneb yn wyneb yn y cyfarfod.*

## 25. SESIWN AGORED

***PENDERFYNWYD*** *y dylai gweddill y cyfarfod barhau mewn sesiwn agored.*

## 26. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a'r pwyllgorau a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 15 Mai 2024 - Cofnodion rhifau 1-20

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 5 Mehefin 2024 - Cofnodion rhifau 1-3

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 5 Mehefin 2024 - Cofnodion rhifau 1-15

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir ac fe'u cadarnhawyd i'w gweithredu.*

Yng nghyswllt cofnod rhif 4 (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol), dywedodd Clerc y Dref nad oedd with aelod wedi ymateb hyd yma i gadarnhau p'un ai oeddynt yn dymuno derbyn y lwfanau y mae ganddynt yr hawl iddynt ai peidio. Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau hynny ymateb gynted ag y bo modd.

Gan gyfeirio at gofnod rhif 8 (Eitem gan aelod: Cribyn y Traeth), dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi anfon neges e-bost at y swyddog Mr M. Bennion yng Nghyngor Sir Ddinbych yn unol â'r cyfarwyddiadau. Darllenodd yr ateb gan Mr Bennion ar lafar, yn cynghori na ellid defnyddio Cribyn y Traeth yn anffodus gan fod y tractor a ddefnyddiwyd i'w dynnu wedi gorfod mynd yn ôl i Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych gan mai nhw oedd wedi rhoi'r cyllid ar ei gyfer Ychwanegodd Mr Bennion eu bod yn ceisio caffael eu tractor eu hunain, ond na fyddai hynny'n digwydd am rai misoedd eto.

***PENDERFYNWYD*** *i Glerc y Dref ateb Mr Bennion yn cyfleu siom y Cyngor Tref na fyddai Cribyn y Traeth yn weithredol yn ystod misoedd prysur yr haf.*

**27. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Maer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd at gynhyrchiad Theatr Gerdd y Rhyl a'r Cylch o 'Musical Memoir' yn y Theatr Fach fel noson a fwynhawyd yn fawr, ac at ei Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys y Santes Fair, a oedd yn wych.

Tynnodd y Dirpwy Faer sylw at angladd y Cynghorydd Mrs Win Mullen-James, gyda chynifer yn bresennol i dalu teyrnged dyledus iddi hi a'i gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**28. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif Taleb: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1850 | Homestart | Gwasanaethau a gomisiynwyd – Prosiect Teuluoedd y Rhyl | 2,000.00 |
| 1851 | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Stêm y Rhyl | Ad-daliad yswiriant ar gyfer Billy a'r plac enw | 254.80 |
| 1852 | Eglwys Gatholig y Rhyl | Arlwyo i'r gwasanaeth Sul Dinesig | 600.00 |
| 1853 | Hamdden Sir Ddinbych Cyf | Cyfraniad at ddigwyd'iadau'r Haf a'r Nadolig 2024 | 13,000.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£15,854.80** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**29. ADRODDIAD YR ARCHWILYDD MEWNOL 2023/24 (ADRODDIAD TERFYNOL)**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad terfynol yr Archwilydd Mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w weithredu a'i fonitro yn y modd arferol, ond er gwybodaeth i'r aelodau, roedd yr adroddiad yn nodi dau fater.

Sef ystyried ffyrdd o gynyddu nifer y dyfynbrisiau a thendrau a dderbyniwyd wrth gaffael a dyfarnu contractau, a ffurfioli'r broses pennu'r gyllideb sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y pum i chew blynedd ddiwethaf ar gyfer 2025/26 a thu hwnt.

***PENDERFYNWYD****:*

(i) *Derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a'r camau gweithredu sy'n ofynnol.*

(ii) *Cyfeirio'r materion a godwyd i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w hystyried yn fanwl, cyflwyno camau gweithredu a monitro.*

**30. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2023/24**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r datganiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ac awdurdodi'r Maer i'w lofnodi, i'w gynnwys yn Natganiad Blynyddol 2023/24 y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo a llofnodi'r datganiad.*

**31. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU 2023/24**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'w aelodau ei gymeradwyo ac awdurdodi'r Maer, fel Cadeirydd y cyfarfod, i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref cyn ei gyflwyno i'r Archwilydd Allanol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2023/24 a'i lofnodi gan y Maer i'w gyflwyno i'r Archwilydd Allanol, Swyddfa Archwilio Cymru.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *fod yr aelodau yn dymuno i'w diolchiadau gael eu cyfleu i'r Swyddog Cyllid am ei waith clodwiw, unwaith eto, a werthfawrogwyd yn fawr iawn.*

**32. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – ADOLYGU TERFYNAU CYFLYMDER 20 MILLTIR YR AWR**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2024, adroddodd Clerc y Dref am dderbyn yr ymgynghoriad uchod gan Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidigaeth, yn gofyn am farn y Cyngor Tref am y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr.

Yn dilyn mynegi ystod o farn, ac ar ôl rhoi'r mater i bleidlais, ***PENDERFYNWYD*** *mai'r farn gonsensws oedd y dylai'r holl ffyrdd yn y Rhyl wedi'u cyfyngu i 20 milltir yr awr ar hyn o bryd barhau i fod felly.*

**33. CYNHADLEDD FFYNIANT BRO**

Ymhellach i gofnod rhif 147 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024, cyfeiriodd Clerc y Dref at drawsgrifiad llawn y gynhadledd (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a chynghorodd ei fod wedi gwahodd Cadeirydd newydd Bwrdd Tref y Rhyl, Mr Adam Roche, i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ym mis Gorffennaf i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref ac i roi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau iddo'n uniongyrchol.

Yna rhoddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE adroddiad cynhwysfawr ar y gynhadledd, wedi iddi fynd ar ran y Cyngor Tref, a oedd yn rhoi peth cyd-destun a mwy o ddyfnder i'r trawsgrifiad.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield ei bod wedi dod o'r gynhadledd yn llawn gobaith a brwdfrydedd.

***<u>PENDERFYNWYD</u>***:

*(i)* *Y byddai Clerc y Dref yn rhannu'r Nodiadau Canllaw, a ddarparwyd gan drefnydd y gynhadledd, i'r holl aelodau gan fod y Cynghorydd Butterfield yn teimlo eu bod yn cynnig trosolwg da.*

*(ii)* *Y byddai aelodau'n medru holi cwestiynau yn uniongyrchol i Mr Roche pan fydd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar 3 Gorffennaf.*

**34. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..